# Cyngor Sir

Man Cyfarfod
**Siambr yCyngor – Neuadd y Sir Llandrindod**

Dyddiad y Cyfarfod
**Dydd Iau, 24 Ionawr 2019**

Amser y Cyfarfod
**10.30 am**


Neuadd Y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â

**Stephen Boyd**
01597 826374
steve.boyd@powys.gov.uk


18/01/2019

Mae croeso i'r rhai sy'n cymryd rhan ddefnyddio'r Gymraeg. Os hoffech chi siarad Cymraeg yn y cyfarfod, gofynnwn i chi roi gwybod i ni erbyn hanner dydd ddau ddiwrnod cyn y cyfarfod

## AGENDA

| 1. | YMDDIHEURIADAU |
|---|---|

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

| 2. | COFNODION |
|---|---|

Awdurdodi'r Cadeirydd i arwyddo cofnodion y cyfarfodydd diwethaf a gynhaliwyd ar 18 Hydref a 20 Tachwedd 2018 fel cofnodion cywir.
(Tudalennau 1 - 84)

| 3. | DATGANIADAU O DDIDDORDEB |
|---|---|

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb oddi wrth Aelodau mewn perthynas ag eitemau sydd i'w hystyried ar yr agenda.

| 4. | CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD |
|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau oddi wrth Gadeirydd y Cyngor.

| 5. | CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD |
|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan yr Arweinydd.

| 6. | BRIFF GAN Y PRIF WEITHREDWR |
|---|---|

Derbyn briff oddi wrth y Dirprwy Brif Weithredwr.

| 7. | CWESTIYNAU GAN AELODAU'R CYHOEDD |
|---|---|

7.1. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion yr Economi a Chynllunio oddi wrth Mr George Harris**

A all y cyngor gadarnhau beth yw'r budd ariannol mewn punnoedd, a fydd yn cael ei gyflawni gan y cyngor ynghyd â'r amseru gyda hyn, trwy ganiatáu i brosiect Fferm Wynt Hendy fynd yn ei flaen?

(Tudalennau 85 - 86)

7.2. **Cwestiwn i'r Arweinydd oddi wrth Mr Martin Aymes**

Mae Cyngor Sir Powys yn protestio'r angen am fod yn Agored, Tryloyw a Chynhwysol yn ei nodau ar gyfer democratiaeth a chyfranogiad y cyhoedd ym mhrosesau Llywodraeth Leol.

Mewn cyfarfod cyhoeddus yn Aber-miwl ar y 4 Rhagfyr 2018 – o flaen tua 275 o drigolion lleol – cyflwynwyd cynnig ar y cyd gan Rosemarie Harris, yr Arweinydd, ac Aled Davies a Phyl Davies, Aelodau'r Cabinet i Martin Aymes gysylltu â Chyfreithiwr y Cyngor, er mwyn trafod rhai agweddau cyfreithiol ar Gyfleuster Crynhoi Deunyddiau Ailgylchu Aber-miwl.

Mae Cyfreithiwr y Cyngor wedi gwrthod unrhyw drafodaethau cyfreithiol o'r fath wedi hynny. A yw Cyngor Sir Powys yn barod i gyfarwyddo Cyfreithiwr y Cyngor i gymryd rhan mewn trafodaethau o'r fath, gan sicrhau ei fod yn gweithredu yn ôl ei nodau?

(Tudalennau 87 - 88)

7.3. **Cwestiwn i'r Arweinydd oddi wrth Mr Jeffrey Matthews**

O ystyried y cynnig a gyflwynwyd gan y Cyng. Gareth Pugh ac a basiwyd yn unfrydol yng Nghyfarfod llawn y Cyngor ar 18 Hydref, a oedd yn cynnig cyswllt, ymgynghori ac ymgysylltu gwell gyda chymunedau a gonestrwydd a bod yn agored a thryloyw o fewn llywodraeth leol, a yw'r cyngor yn teimlo ei fod erbyn hyn wedi cyflawni hyn yn llwyr pan ydym yn

parhau i weld dinasyddion Gogledd Powys yn teimlo'n bryderus iawn am ganiatâd i godi adeilad a gafodd ei wthio drwy'r system yn gyflym ac yn frysiog. Roedd y caniatâd hwn yn cynnwys gwallau a chamddehongliad posibl o ddata a gyflwynwyd i Gynghorwyr Sir Powys ac mae'n awgrymu fod angen ail-edrych ar rai hawliau cynllunio hanesyddol a'u diweddaru cyn dechrau ar waith adeiladu?

(Tudalennau 89 - 90)

7.4. **Cwestiwn i'r Arweinydd oddi wrth Mr Stephen Meadowcroft**

Mae Cyngor Sir Powys yn ymddangos yn awyddus i ddatblygu partneriaethau Preifat/ Cyhoeddus i gyflwyno gwasanaethau allweddol y gellir eu gweld trwy ffurfio Gwasanaethau Eiddo Calon Cymru (HoWPS) gyda Grŵp *Kier*. Ar adeg ysgrifennu'r cwestiwn hwn, mae cyfrifon ariannol ar gyfer y cwmni hwn yn hwyr yn cael eu cyflwyno (y dyddiad i'w derbyn oedd 23/12/18) felly nid yw llwyddiant y fenter hon ai peidio yn glir.

Pa mor llwyddiannus mae'r fenter wedi bod (o ystyried adroddiadau am Anawsterau Ariannol Grŵp *Kier)* ac a oes gennych gynlluniau i fyned i mewn i bartneriaethau gyda chwmnïau preifat eraill megis *Veolia* i gyflwyno gwasanaethau rheoli gwastraff?

(Tudalennau 91 - 92)

| 8. | TROSGLWYDDIADAU CYLLIDEB |
|---|---|

Ystyried trosglwyddiadau cyllideb.

8.1. **Parc Busnes Abermiwl**

(Tudalennau 93 - 96)

8.2. **Ail-leoli Cwrt-y-Plyffin**

(Tudalennau 97 - 100)

8.3. **Storfa Halen Strategol wrth Gefn**

(Tudalennau 101 - 104)

| 9. | CYFRIFOLDEBAU STATUDOL Y PRIF WEITHREDWR |
|---|---|

Ystyried adroddiad gan Gyfreithiwr y Cyngor.
(Tudalennau 105 - 106)

| 10. | STRWYTHUR Y PWYLLGOR CRAFFU |
|---|---|

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.
(Tudalennau 107 - 174)

| 11. | PENODI AELOD CRAFFU SYDD WEDI'I GYFETHOL |
|---|---|

Ystyried adroddiad gan Gyfreithiwr y Cyngor.
(Tudalennau 175 - 176)

| 12. | PENODIADAU I GYRFF ALLANOL |
|---|---|

12.1. **Penodiad i Banel Cronfa Waddol Gymunedol Powys**

Penodi aelod o Sir Drefaldwyn ar Banel Cronfa Waddol Gymunedol Powys i gymryd lle'r Cynghorydd Sir Peter Lewis sydd wedi ymddiswyddo oddi ar y Panel.

12.2. **Penodiad ar y Cyngor Iechyd Cymunedol**

Penodi aelod Sir Frycheiniog ar y Cyngor Iechyd Cymunedol i gymryd lle'r Cynghorydd Sir Huw Williams.

12.3. **Penodiad i Ymddiriedolaeth Fferm Wynt Bryn Titli**

Penodi aelod Sir Faesyfed i Ymddiriedolaeth Fferm Wynt Bryn Titli.

| 13. | RHYBUDD O GYNNIG |
|---|---|

13.1. **Rhybudd o Gynnig: Ymgyrch Genedlaethol 'Lucy's Law'**

Mae'r Cyngor hwn yn ychwanegu ei gefnogaeth at Ymgyrch Genedlaethol *Lucy's Law* i wahardd a gwneud ffermio cŵn bach trwy drydydd parti yn anghyfreithlon. Bydd y Cyngor hwn yn ychwanegu ei enw at y rhestr gynyddol o sefydliadau sy'n cefnogi'r ymgyrch a bydd yn mynd ati'n weithgar i roi amlygrwydd i'r ymgyrch gyda'n trigolion ym mhob cwr o'r Sir. Mae'r Cyngor hwn yn gofyn i arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Lywodraeth y DU, yn cefnogi'r galw am weithredu ar frys ar y mater hwn.

Cynigydd: Cynghorydd Sir Sandra Davies
Eilydd: Cynghorydd Sir Sarah Williams

13.2. **Rhybudd o Gynnig: Calon Werdd Cymru**

Mae'r Cyngor hwn wrth ystyried Powys fel Calon Werdd Cymru yn;

1. Cydnabod yr Argyfwng Newid Hinsawdd ac felly yn:
2. Gofyn i'r ymddiriedolwyr pensiwn i ddatblygu strategaeth rhoi'r gorau i ddefnyddio tanwydd ffosil
3. Cefnogi egwyddorion Prydain Ddi-garbon a'r gwaith a wneir gan CAT (Canolfan y Dechnoleg Amgen)
4. Annog datblygu cynhyrchu Hydrogen a'i dechnolegau ym Mhowys gan ddefnyddio cyflenwad ynni a dŵr sy'n lân i'r amgylchedd
5. Pwysleisio y dylai technolegau gwyrdd a chyfleoedd economaidd newydd fel rhan o gynaliadwyedd amgylcheddol fod yn rhan allweddol o Fargen Twf Canolbarth Cymru gan gyflwyno Pwynt Gwerthu Unigryw (USP) i ni
6. Y dylai'r awdurdod roi strategaeth ar waith ar gyfer carbon sero net ei weithgareddau a datblygu'r arfer amgylcheddol gorau yn ei adeiladau
7. Y dylai'r awdurdod edrych ar arfer gorau o awdurdodau eraill megis robinhoodenergy.co.uk gyda Chyngor Nottinghamshire a theleccy.co.uk/about/ gyda Chyngor Dinas Lerpwl, nid yn unig gyda datblygu cadwyni perchen a chyflenwi ynni lleol ond hefyd wrth fynd i'r afael gyda thlodi tanwydd.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan
Eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Bryn Davies

| 14. | CWESTIYNAU YN UNOL Â'R CYFANSODDIAD |
|---|---|

14.1. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Priffyrdd, Ailgylchu ac Asedau oddi wrth y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan**

Yn ystod y misoedd diwethaf, rydym wedi gweld *Carillion,* cwmni mawr gyda chontractau allanol yn mynd i'r wal. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, rydym wedi gweld cwmni arall sef *Interserve* mewn anhawster difrifol.

Ar yr un adeg, mae contractwr rhestredig i'r llywodraeth wedi profi oedi a mynd tros gostau ar brosiect o bwys i'r GIG. Mae ei ddyled gyfartalog net yn cynyddu ac nid yw'r rhif a adroddir yn cynnwys cannoedd o filoedd o

bunnoedd o gyllid o fewn y gadwyn gyflenwi i dalu biliau yn unig. Mae wedi bod yn caffael ac yn pennu ewyllys da am werth uwch na'r pris a dalwyd. Eto, mae'n cynyddu ei fuddrannau i gyfranddalwyr.

Na, nid *Carillion* ydyw, sef y cwmni mawr a fethodd gyda chontractau allanol. Y cwmni yw *Kier*. Mae *Kier* hefyd wedi adrodd am gynnydd o 17 y cant mewn dyled gyfartalog net i £375m - a oedd yn eithrio £185m o gyllid y gadwyn gyflenwi a oedd yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn, ac a adroddwyd ar wahân fel "credydwyr masnach". Roedd ffigwr dyled net Carillion o £900m yn eithrio £500m o gyllid tebyg i dalu cyflenwyr.

Roedd pris o £26m ar gaffaeliad mwyaf diweddar *Kier* sef y grŵp adeiladu, *McNicholas* ond aeth y cwmni ati i bennu £43m mewn ewyllys da o fewn ei gyfrifon. Mae *Carillion* hefyd wedi prynu busnesau a phennu ewyllys da o fwy na 100 y cant o'r pris prynu, gan feithrin ei asedau anghyffwrddadwy.

O ystyried y patrwm cyson hwn, a allwn ni fel Awdurdod sydd â menter ar y cyd gyda *Keir*, gael:

- y sicrwydd fod *Kier* yn parhau i fod yn endid dichonadwy?
- pa asesiad risg sydd wedi cael ei wneud i ostwng y rhwymedigaethau i Gyngor Powys?
- eglurhad ar y camau y byddai'n cael eu cynnal petai *Keir* yn dilyn llwybr *Carillion* ac *Interserve*?

(Tudalennau 177 - 178)

14.2. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Addysg a'r Iaith Gymraeg oddi wrth y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt**

A all y Deilydd Portffolio roi amlinelliad o'r mesurau y mae'n eu cymryd ar hyn o bryd, heblaw am yr arolwg presennol o'r Fformwla Ariannu Teg i Ysgolion, i fynd i'r afael â'r sefyllfa sy'n gwaethygu'n gyflym o ran y gyllideb ddirprwyedig i ysgolion ym Mhowys?
(Tudalennau 179 - 180)

14.3. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Addysg a'r Iaith Gymraeg oddi wrth y Cynghorydd Sir David Jones**

Nawr fod gennym Fformwla Ariannu Tecach newydd i Ysgolion, pa ganran o gyfanswm y nawdd ar addysg sy'n cael ei ddirprwyo i ysgolion dan Reoli Ysgolion yn Lleol (LMS)?
(Tudalennau 181 - 182)

14.4. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Addysg a'r Iaith Gymraeg oddi wrth y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance**

A fydd yr Aelod Cabinet yn gwneud datganiad ar gyflwyno Dechrau'n Deg

yn Ward Sant Ioan?
(Tudalennau 183 - 184)

14.5. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Llywodraethu Corfforaethol, Tai a Gwarchod y Cyhoedd oddi wrth y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance**

Pa mor effeithiol yw Gwasanaeth Eiddo Calon Cymru ym marn yr Aelod Cabinet ar faterion Tai ac a yw ef yn credu ei fod yn cynnig gwerth am arian i drigolion ym Mhowys?
(Tudalennau 185 - 186)

14.6. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Addysg a'r Iaith Gymraeg oddi wrth y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan**

Faint o gyfarfodydd y Fforwm Addysg Gymraeg, sef partneriaeth ag ysgolion a sefydliadau allanol, ac sy'n ffurfio rhan allweddol o gyflwyno Cynllun Strategol presennol y Gymraeg mewn Addysg fel y cymeradwywyd gan Weinidogion Llywodraeth Cymru; sydd wedi'u cynnal ers ei gymeradwyo gan Weinidogion a Chabinet Powys?
(Tudalennau 187 - 188)

14.7. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Priffyrdd, Ailgylchu ac Asedau oddi wrth y Cynghorydd Sir John Morris**

Rwyf newydd dderbyn e-bost oddi wrthych (8/01/19) sy'n dynodi'r penderfyniad i waredu â biniau gwastraff a wnaed gan y cabinet y llynedd ac yn trafod ymgynghoriad sydd newydd orffen ar sut y bydd CSP yn gweithredu'r casgliad gwastraff gwyrdd a gyflwynir yn eu lle.

Bydd nifer o'm cyd-gynghorwyr ac aelodau o gymuned Powys wedi cael syndod ac yn teimlo'n flin, yn ddigon haeddiannol, am hyn. Yn fy ward i yn sicr, roeddem oll yn teimlo fod yr ymgynghoriad ynghylch â dyfodol cyffredinol y casgliad gwastraff gwyrdd, gan gynnwys y sefyllfa sydd ohoni. Mae nifer o drigolion a chynghorwyr wedi ymateb i'r ymgynghoriad trwy ofyn am gadw'r biniau mawr.

A ydych yn credu eich bod wedi camarwain aelodau a phobl Powys a gysylltodd â'r cyngor yn ystod yr ymgynghoriad i ofyn am gadw'r biniau mawr. A ddylech fod wedi rhoi gwybod i drigolion am eich penderfyniad cynharach i waredu â'r biniau fel rhan o fanylion yr ymgynghoriad?
(Tudalennau 189 - 190)

14.8. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Pobl Ifanc a Diwylliant oddi wrth y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe**

A all yr aelod portffolio gynnig dadansoddiad o gostau rhedeg ar gyfer y 18 llyfrgell i gyd ym mhob cwr o'r sir dros y 3 blynedd diwethaf?

(Tudalennau 191 - 194)

14.9. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar Faterion Gofal Cymdeithasol i Oedolion oddi wrth y Cynghorydd Sir Iain McIntosh**

A all yr aelod portffolio a'r aelod cabinet ar faterion gwasanaethau oedolion roi gwybod i mi a oes unrhyw gynlluniau i gau Canolfan Ddydd Arosfa ar Heol Camden, Aberhonddu, cyn y 13 Rhagfyr 2018?
(Tudalennau 195 - 196)

14.10. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar Faterion Addysg a'r Iaith Gymraeg a'r Aelod Portffolio ar faterion Cyllid oddi wrth y Cynghorydd Sir Jackie Charlton**

CEFNDIR
Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llangatwg wedi bod yn cael addasiadau helaeth ac estyniad i'r ysgol. Bu hyn ar fynd ers mis Gorffennaf 2018. Mae'r prosiect wedi costio ychydig dros £500,000 gyda £120,000 ohono'n cael ei gyfrannu gan yr Eglwys yng Nghymru ac Ymddiriedolaeth Addysg yn Llangatwg. Dechreuodd trafodaethau am y prosiect chwe blynedd yn ôl, mae'r gwaith adeiladu wedi cymryd dros 6 mis ac roedd 3 mis yn hwyr yn dechrau wedi nifer o ddisgwyliadau eraill y byddai dyddiad dechrau yn ystod 2017.

Roedd y gwaith i ddiwedd ym mis Medi 2018 mewn amser ar gyfer y tymor ysgol newydd gydag addewid i ddechrau'r gwaith adeiladu ym mis Mai 2018 fel y cytunwyd. Rhaid oedd estyn hyn i fis Gorffennaf oherwydd camgymeriadau gweinyddol. Mae'r anawsterau yn llawer rhy niferus i'w trafod yma ac mae Llywodraethwyr yr ysgol ar hyn o bryd yn ceisio gweithio drwy'r problemau, gan gadw'r ysgol ar agor ac yn barod i addysgu ar gyfer 2019.

Rhoddwyd sicrwydd i mi gan yr aelod portffolio yng nghyfarfod y Cyngor Sir ym mis Gorffennaf y byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau fel yn briodol er bod disgwyl i'r plant ddechrau'r tymor yn hwyrach oherwydd y gwaith adeiladu. Rhaid oedd trafod hyn gyda rhieni a'r adran addysg. Mae'r plant meithrin yn cael eu dysgu yn y Neuadd Gymuned sydd wrth ymyl yr ysgol ers mis Medi gan fod eu hestyniad newydd sy'n cael ei adeiladu heb ei orffen. Ar y 8 Ionawr 2019, nid oedd hwn wedi'i orffen o hyd.

Yr anhawster mwyaf i Lywodraethwyr Llangatwg yw'r diffyg atebolrwydd, dim un llinell o gyfrifoldeb a'r rheolaeth flêr ac anhrefnus dros y prosiect heb neb yn gwybod pwy sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros y tasgau pwysig hyn. Yn ystod y gwaith adeiladu, mae'r gweithlu adeiladu wedi cael mynediad llawn i'r safle trwy'r ysgol ac mae yna ddyddiau pan fo'r ysgol wedi gorfod parhau ar gau oherwydd peryglon iechyd a diogelwch ar fyr rybudd. Mae'r Pennaeth yno i redeg yr ysgol ond o ystyried y rheolaeth wael dros y prosiect, bu disgwyl iddo/iddi reoli rhai agweddau ar y prosiect, yn enwedig o ran iechyd a diogelwch a diogelu, sydd wedi cymryd llawer iawn o amser ac wedi rhoi pwysau gormodol ar gymuned

yr ysgol.

Mae'r prosiect hwn wedi bod yn draed moch ers y cychwyn i'r diwedd ac nid oes neb yn cymryd cyfrifoldeb. Gellid cael goblygiadau tymor hir i bartneriaethau Cyngor Sir Powys gydag adeiladwyr a chontractwyr ar eiddo ysgol.

CWESTIWN

A yw'r aelod portffolio yn gwybod a oes proses glir o ran rheoli prosiectau, atebolrwydd a chyfrifoldebau dros brosiectau adeiladu ar y cyd yn ein hysgolion lle mae *Kier* a Gwasanaethau Eiddo Calon Cymru (HoWPS) yn gweithio mewn partneriaeth gyda'n Hadran Addysg yma ym Mhowys?

(Tudalennau 197 - 198)

14.11. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Llywodraethu Corfforaethol, Tai a Gwarchod y Cyhoedd a'r Aelod Portffolio ar faterion Priffyrdd, Ailgylchu ac Asedau oddi wrth y Cynghorydd Sir Pete Roberts**

Mewn adroddiad diweddar gan y Huffington Post (1), gwnaed honiad fod dros 25000 o ddrysau tân o'r un math a fethodd i atal tân Grenfell rhag lledaenu yn parhau mewn defnydd o fewn eiddo Cyngor a chymdeithasau tai yn y DU.

A all yr aelod Portffolio gadarnhau faint o'r drysau hyn sy'n parhau mewn defnydd ym Mhowys ac os mai dyma yw'r achos, pa gamau ac amserlenni sydd ganddo ar gyfer codi drysau newydd yn eu lle?
(Tudalennau 199 - 200)

14.12. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Priffyrdd, Ailgylchu ac Asedau oddi wrth y Cynghorydd Sir Pete Roberts**

O ystyried bod chwe mis wedi mynd heibio ers diwedd y cyfnod ymgynghori o ran y cynigion Codi Tâl gyda Bathodynnau Glas, a all yr aelod portffolio esbonio pam na fu cyhoeddi'r ymateb swyddogol o ystyried nad yw'r cynnig heb gael ei gyfeirio at yr arolwg parcio fel y nodwyd yn y Cyngor Llawn diwethaf ond wedi cael ei gynnwys mewn cyfres o fesurau effeithiolrwydd cyllidebol a gyflwynwyd ymlaen i'w bortffolio?
(Tudalennau 201 - 202)

14.13. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Cyllid oddi wrth y Cynghorydd Sir Jackie Charlton**

O ystyried y bydd y Senedd wedi pleidleisio ar Brexit trwy bleidlais ystyrlon, a all yr Aelod Portffolio ddiweddaru'r Cyngor ar yr effaith y bydd hyn yn ei gael ar gyflwyno gwasanaethau a'r holl brosiectau neu

ddatblygiadau a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd y mae'r Cyngor yn ymwybodol ohonynt? Dylai hyn gynnwys unrhyw fygythiadau ariannu o ran prosiectau partneriaeth neu LEADER II a fyddai hyd yn hyn yn dod o dan y taliad olaf i'r Undeb Ewropeaidd neu drefniadau trawsnewidiol.

Yn ychwanegol at hyn, a allwch roi amlinelliad o'r holl brosiectau y mae'r Cyngor wedi'u cyflwyno yn ystod y pum mlynedd diwethaf lle y cafodd rhai neu'r gyfran o'r nawdd ei sicrhau o grantiau'r UE?
(Tudalennau 203 - 206)

14.14. **Cwestiwn i'r Arweinydd oddi wrth y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe**

Gyda'r Cyngor Sir yn wynebu toriadau pellach i swyddogaethau anstatudol a dirprwyedig, mae'n edrych fwy fwy i gymunedau redeg y gwasanaethau hyn lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Mae cymunedau megis Y Gelli Gandryll wedi bod yn ceisio cytuno am dros 3 blynedd i drosglwyddo asedau gyda'r Cyngor Sir ac i ysgwyddo'r swyddogaethau, ond nid ydynt wedi gallu gwneud hyn, oherwydd ffactorau sy'n cynnwys penderfyniad unochrog gan y Cabinet presennol i newid y cytundeb a wnaed gyda Chabinet blaenorol y Cyngor Sir. Mae hyn wedi arwain at Gyngor Tref Y Gelli Gandryll yn cyllidebu'r archebiant ac yn gwneud ymrwymiadau, na fydd yn gallu eu gweithredu yn awr o bosibl, i gadw'r gwasanaethau o fewn y gymuned. Nid dyma'r unig gymuned sydd wedi cael anhawster yn gweithio gyda'r Cyngor Sir ar drosglwyddo asedau. Mae pryderon parhaus yn cael eu mynegi gan nifer o gymunedau am ddiffyg hyblygrwydd ac mae'r Cyngor Sir yn bod yn gyfyngedig yn enw "tegwch i bawb".

A all yr Arweinydd gyflwyno briff i'r Cyngor llawn ar sut mae'r Cabinet yn cynllunio i weithio gyda chynghorau a chymunedau lleol dros y rownd nesaf o doriadau, gyda'r disgwyliadau pellach oddi wrth Lywodraethau'r DU a Chymru y bydd angen i gymunedau redeg mwy o wasanaethau o fewn y gymuned gan ddefnyddio gwirfoddolwyr?

(Tudalennau 207 - 208)

14.15. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Yr Economi a Chynllunio oddi wrth y Cynghorydd Sir Heulwen Hulme**

A ydych yn fodlon fod yr Awdurdod yn gorfodi'r amodau a nodir yn y gymeradwyaeth gynllunio ar gyfer fferm wynt Hendy?

(Tudalennau 209 - 210)